



Cyllid &  
Thollau EM

# Canllaw Cyfraniadau Treth ac Yswiriant Gwladol ar gyfer Aelodau Seneddol a Gweinidogion

# Cynnwys

- 2 Manylion cyswllt ar gyfer eich ymholiadau treth personol
- 3 Adran 1. Hunanasesiad
  - Y Ffurflen Dreth Hunanasesiad ar gyfer Aelodau Seneddol a Gweinidogion
  - Gwybodaeth fydd ei hangen arnoch er mwyn cofrestru ar gyfer cyflwyno ar-lein
  - Anfon Ffurflen Dreth bapur
  - Y cysylltiad â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol
- 5 Adran 2. Buddiannau trethadwy o'ch swydd
  - Treuliau a dalir gan yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA)
  - Treuliau llety
  - Costau staffio
  - Costau swyddfa
  - Gwariant ar deithio a chynhaliaeth
  - Taliadau wrth gefn
  - Cronfa Cymorth Ariannol ac ad-daliadau ariannol eraill
  - Buddiannau eraill
  - Treuliau a godwyd a lwfansau cyfalaf
  - Tabl yn dangos ble i nodi buddiannau a gafwyd a threuliau a dalwyd ar y Ffurflen Dreth Hunanasesiad ar-lein
9. Adran 3 Cyfrifoldebau'r cyflogwr
  - Eitemau eraill o ddiddordeb
  - Ffioedd
  - TAW
  - Ffioedd a gyfrannwyd at elusen
11. Adran 4. Treth Enillion Cyfalaf ar breswylfannau
  - Eich preswylfan
  - A all mwy nag un preswylfan fod yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Preswylfan Preifat?
  - Rhyddhad ar gyfer pobl sy'n briod neu rywun mewn partneriaeth sifil

Mae CThEM wedi paratoi'r canllaw hwn i roi cyngor i Aelodau Seneddol a Gweinidogion am eich treth personol a'ch cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG).

## Manylion cyswllt ar gyfer eich ymholiadau treth personol



Adran Gyhoeddus 1 (PD1) Cyllid a Thollau EM (CThEM) sy'n delio â'ch holl ymholiadau treth personol a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

### Ein cyfeiriad

Cyllid a Thollau EM (CThEM)  
Adran Gyhoeddus 1  
Heol Tŷ Glas, Llanisien,  
CAERDYDD  
CF14 5QZ.

### Rhifau ar gyfer ymholiadau ffôn

**03000 581 588** neu **03000 581 589**  
08:30 – 17:00, Dydd Llun i Ddydd Gwener

### Rheolwyr Cysylltiadau â Chwsmeriaid

Eirianne Bourge: **03000 581 691**; [eirianne.bourge@hmrc.gsi.gov.uk](mailto:eirianne.bourge@hmrc.gsi.gov.uk)  
Nicola Gibbons: **03000 550 792**, [nicola.gibbons@hmrc.gsi.gov.uk](mailto:nicola.gibbons@hmrc.gsi.gov.uk)

### Ymgynghorydd Technegol

Martin Thorne: [martin.thorne@hmrc.gsi.gov.uk](mailto:martin.thorne@hmrc.gsi.gov.uk)

### Gwefan CThEM

[www.gov.uk/cymraeg](http://www.gov.uk/cymraeg)

Rhowch eich rhif Yswiriant Gwladol pryd bynnag y byddwch yn cysylltu â PD1 gydag ymholiad. Nod PD1 yw darparu atebion i ymholiadau llythyr cyn pen deg diwrnod gwaith ac i ymholiadau ffôn cyn pen tri diwrnod gwaith.

# Adran 1. Hunanasesiad



Bydd PD1 yn eich rhoi yn y gyfundrefn Hunanasesiad yn awtomatig.

Mae Hunanasesiad ar gyfer pobl sydd angen llenwi Ffurflen Dreth er mwyn rhoi gwybod i CThEM am eu hincwm neu enillion cyfalaf, neu i wneud cais am lwfansau treth neu ryddhad.

Nid oes angen i'r rhan fwyaf o gyflogeion ddefnyddio Hunanasesiad er mwyn llenwi Ffurflenni Dreth. Mae hyn oherwydd bod Talu Wrth Ennill (TWE) a systemau didynnu treth eraill yn casglu'r dreth sy'n ddyledus neu'n rhoi'r lwfansau a'r rhyddhad cywir.

Fodd bynnag, bydd yn rhaid i bobl llenwi Ffurflen Dreth Hunanasesiad os yw'r canlynol yn berthnasol:

- maent mewn swydd benodol (megis y hunangyflogedig, cyfarwyddwyr cwmni, ymddiriedolwyr, Aelodau Seneddol neu Weinidogion)
- maent â math a/neu lefel penodol o incwm (er enghraifft, incwm o dramor neu incwm o eiddo sydd £2,500 neu fwy)
- mae'u materion treth yn fwy cymhleth.

## Y Ffurflen Dreth Hunanasesiad ar gyfer Aelodau Seneddol a Gweinidogion

Bydd PD1 yn eich rhoi yn y gyfundrefn Hunanasesiad yn awtomatig os nad ydych eisoes wedi cofrestru. Byddwn hefyd yn anfon eich Cyfeirnod Unigryw Trethdalwr (UTR) atoch.

## Gwybodaeth fydd ei hangen arnoch er mwyn cofrestru ar gyfer cyflwyno ar-lein

- eich UTR
- eich cod post neu'ch Rhif Yswiriant Gwladol.

Gallwch ddod o hyd i'ch UTR ar unrhyw ohebiaeth oddi wrth CThEM. Os na allwch ddod o hyd iddo, gallwch gysylltu â PD1 ar **03000 581 588** a gofyn iddo gael ei anfon i'ch cyfeiriad cartref (am resymau diogelwch, ni allwn roi'ch UTR i chi dros y ffôn). Unwaith yr ydych wedi gwneud hyn, gallwch gofrestru yn <https://online.hmrc.gov.uk/login>

Dylech gofrestru mewn da bryd cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, oherwydd bydd angen i ni anfon cod cychwyn atoch. Mae hyn yn cymryd tua saith diwrnod fel arfer. Mae'n rhaid i chi gychwyn eich cyfrif cyn pen 28 diwrnod o gael y cod cychwyn.

Fel Aelod Seneddol, bydd yn rhaid i chi ddangos manylion eich incwm Seneddol ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad. Os ydych yn llenwi'r Ffurflen Dreth ar-lein bydd angen i chi lenwi'r dudalen Cyflogaeth.



Os yw'r dreth sydd arnoch yn fwy na £3,000, neu os byddai'n well gennych dalu'n uniongyrchol am unrhyw dreth o dan £3,000, bydd angen i chi dalu erbyn 31 Ionawr.

## Anfon Ffurflen Dreth bapur

Mae'n dal yn bosibl i chi anfon Ffurflen Dreth bapur at CThEM, os byddai hynny'n well gennych. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'ch Ffurflen Dreth ar bapur yw 31 Ionawr yn hytrach na 31 Hydref.

Cyn belled â'n bod yn cael eich Ffurflen Dreth bapur erbyn 31 Rhagfyr, gallwn gasglu'r dreth sydd arnoch – hyd at £3,000 – drwy gyfrwng eich cod treth TWE ar gyfer y flwyddyn ganlynol, pe dymunwch i ni wneud hynny.

Os yw'r dreth sydd arnoch yn fwy na £3,000, neu os byddai'n well gennych dalu'n uniongyrchol am unrhyw dreth o dan £3,000, bydd angen i chi dalu erbyn 31 Ionawr er mwyn osgoi gorfod talu llog ar y dreth sydd arnoch.

Os bydd eich Ffurflen Dreth bapur yn dod i law ar ôl 31 Rhagfyr, ni allwn warantu y byddwn yn eich hysbysu ynghylch faint o dreth sy'n ddyledus erbyn 31 Ionawr. Bydd yn rhaid i chi amcangyfrif faint o dreth sydd arnoch, a thalu'r swm hwnnw erbyn 31 Ionawr, er mwyn osgoi gorfod talu llog.

Bydd CThEM yn codi llog a chosbau ar gyfer Ffurflenni Treth a thaliadau a ddaw i law yn hwyr.

## Y cysylltiad â Chyfraniadau Yswiriant Gwladol

Bydd angen i chi dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 ar yr holl enillion, gan gynnwys unrhyw elw sy'n deillio o'ch cyflogaeth fel Aelod Seneddol. Caiff hyn ei dynnu o'ch cyflog drwy'r gyflogres Seneddol.

Pan fyddwch yn cael budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth, bydd atebolrwydd cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A (cyflogwr yn unig) yn codi.

Yr eithriadau i hyn yw pan fo'r canlynol yn berthnasol:

- mae eithriad yn bodoli, fel arfer am draul arferol a godir wrth gyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch cyflogaeth
- rydych yn gwneud taliad penodol ac amlwg o, neu gyfraniad tuag at, dreuliau a godir wrth gyflawni'ch cyflogaeth.

# Adran 2. Buddiannau trethadwy o'ch swydd



Bydd IPSA yn rhoi manylion i chi ar eich ffurflen P11D, 'Treuliau a buddiannau'.

Os cewch unrhyw fuddiannau neu dreuliau heb eu heithrio o'ch swydd, bydd angen i chi'u cynnwys ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad. Bydd IPSA yn rhoi manylion i chi ar eich ffurflen P11D, 'Treuliau a buddiannau'.

Ni fydd treuliau neu fuddiannau sydd wedi'u cwmpasu gan eithriad yn ymddangos ar eich ffurflen P11D, ac ni ddylech eu cynnwys ar eich Ffurflen Dreth.

Bydd IPSA yn rhoi gwybod i chi os ydynt wedi talu'ch buddiannau a threuliau 'drwy'r gyflogres' (golyga hyn bod treth wedi'i didynnu o'ch cyflog).

Gall Gweinidogion hefyd cael budd-daliadau a threuliau heb eu heithrio o'u hadran lywodraethol.

## Treuliau a dalir gan IPSA

Gallwch wneud cais am IPSA ar gyfer y canlynol:

- treuliau llety
- costau staffio
- costau swyddfa
- gwariant ar deithio a chynhaliaeth.

Mae'r rheolau ar gyfer gwneud ceisiadau am dreuliau ar gael ar wefan IPSA yn [www.theIPSA.org.uk](http://www.theIPSA.org.uk)

## Treuliau llety

Nid ydynt yn drethadwy.

## Costau staffio

Mae cyflogau ysgrifenyddion a chynorthwywyr ymchwil sy'n cael eu talu gan IPSA ar eich rhan, wedi'u cwmpasu gan yr eithriad.

## Costau swyddfa

Dangosir unrhyw daliadau trethadwy ar eich ffurflen P11D. Gallwch wneud cais am ddiidyniad pan godwyd treuliau arnoch yn gyfan gwbl, yn angenrheidiol a dim ond wrth gyflawni'ch dyletswyddau fel Aelod Seneddol.

## Gwariant ar deithio a chynhaliaeth

Dangosir unrhyw daliadau trethadwy ar eich ffurflen P11D. Os yw'r ffigur ar eich ffurflen P11D yn cynnwys rhywfaint o deithio busnes, gallwch wneud cais am y gost hon.

## Taliadau wrth gefn

Mae taliadau wrth gefn yn cwmpasu symiau a ad-dalwyd gan IPSA ar sail eithriadol. Mae unrhyw ad-daliad yn drethadwy. Dangosir y taliad trethadwy ar eich ffurflen P11D.

## Cronfa Cymorth Ariannol ac ad-daliadau ariannol eraill

Dangosir unrhyw daliad trethadwy ar eich ffurflen P11D.

## Budd-daliadau eraill

Dangosir unrhyw daliad trethadwy ar eich ffurflen P11D.

## Treuliau a godwyd a lwfansau cyfalaf

Gallwch dim ond hawlio am eitemau y byddai'u hangen arnoch fel Aelod Seneddol i wneud eich swydd.

Gallwch hefyd hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer y gost o brynu a gwella cyfarpar sydd eu hangen arnoch er mwyn gwneud eich swydd, megis desgiau a chypyrddau cadw ffeiliau. Bydd y math o lwfans cyfalaf a'r swm y gallwch ei hawlio yn dibynnu ar gost yr ased ac amgylchiadau eraill.

Efallai y gallwch hawlio'r lwfansau canlynol:

- Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) am gyfarpar (ond nid ceir) hyd at uchafswm o £20,000 o 1 Ionawr 2016 ymlaen
- Lwfans ar Bapur (LAB). Os yw'r gost o brynu cyfarpar yn fwy na'r uchafswm ar gyfer LBB (£200,000), caiff yr hyn sydd dros ben ei roi mewn cronfa a gallwch hawlio 18% o'r brif gronfa fel LAB a chario'r swm ymlaen
- Gallwch hawlio 8% o'r gweddill mewn cronfa gyfradd arbennig fel LAB
- Lwfans Cronfeydd Bychain (LCB). Os yw cyfanswm gwerth eich 'cronfa' yn £1,000 neu'n llai, gallwch hawlio'r swm cyfan fel LCB.

Ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer:

- cyfarpar TG a ddarparwyd o dan drefniadau Tŷ'r Cyffredin
- eitemau yr ydych yn prynu ar gyfer, neu i'w defnyddio yn, eich cartref eich hunan
- y gost o brynu car. Bydd IPSA yn talu cyfradd milltired modur.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn

<http://www.gov.uk/work-out-capital-allowances/rates-and-pools>

Os ydych yn defnyddio'r cyfarpar ar gyfer defnydd busnes a phreifat, bydd yn rhaid i chi ostwng eich cais gan y gyfran sy'n ymwneud â'ch defnydd preifat.

## Enghraifft

Mae Mair Smith AS yn creu swyddfa yn ei chartref, gan wario £5,000 ar gyfarpar TG. Nid yw IPSA yn ad-dalu Ms Smith am y gost hon. Mae'n defnyddio'r cyfarpar 70% o'r amser ar gyfer ei gwaith a 30% o'r amser ar gyfer defnydd personol, felly bydd yn rhaid iddi ostwng swm y Lwfans Buddsoddi Blynyddol (LBB) gan swm ei ddefnydd personol – 30%.

Gall Ms Smith hawlio £3,500 o LBB (£5,000 llai 30% ar gyfer defnydd preifat).



Mae'r tabl isod yn dangos ble i nodi 'Buddiannau o'ch swydd' o'ch ffurflen P11D ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad ar-lein.

P11D Buddiannau o'ch swydd	Ffurflen Dreth Hunanasesiad Ar-lein Treuliau a buddiannau trethadwy
<b>Blwch 3</b> Teithiau sydd wedi'u dargyfeirio a gymeradwywyd o flaen llaw	Talebau, cardiau credyd a lwfans milltiroedd gormodol
<b>Blwch 5</b> Eraill – OCE (Gwariant ar gostau'r swydd)	Nwyddau ac asedion eraill a ddarparwyd gan eich cyflogwr
<b>Blwch 5</b> Cyfrifeg Seneddol	Nwyddau ac asedion eraill a ddarparwyd gan eich cyflogwr
<b>Blwch 6</b> Taliad wrth gefn	Taliadau treuliau a gafwyd a thaliadau mantoli
<b>Blwch 7</b> Amrywiol – Dirwyn i ben	Buddiannau eraill (gan gynnwys benthyciadau yn rhydd o log a benthyciadau llog isel)
<b>Blwch 7</b> Cymorth diogelwch	Buddiannau eraill (gan gynnwys benthyciadau yn rhydd o log a benthyciadau llog isel)
<b>Blwch 7</b> Cymorth anabledd	Taliadau treuliau a gafwyd a thaliadau mantoli
<b>Blwch n/a</b> Gwariant cyfalaf	Nid oes angen cofnod



Mae'r tabl yn dangos ble i nodi 'Treuliau'r swydd a delir gennych' o'ch ffurflen P11D ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad ar-lein.

P11D Treuliau'r swydd a delir gennych	Ffurflen Dreth Hunanasesiad Ar-lein Treuliau cyflogaeth
Gwarantau teithio	Treuliau teithio a chynhaliaeth busnes
Cymorth ysgrifenyddol, clerigol ac yn ymwneud ag ymchwil	Treuliau a lwfansau cyfalaf eraill
Treuliau'r swydd	Treuliau a lwfansau cyfalaf eraill
Taliad wrth gefn	Treuliau a lwfansau cyfalaf eraill

# Adran 3. Cyfrifoldebau'r cyflogwr



Gallwch ddewis cofrestru hyd yn oed os nad oes yn rhaid i chi.

Os ydych yn talu staff yn uniongyrchol, ac nid trwy IPSA, bydd angen i chi ddefnyddio cynllun TWE.

Mae manylion llawn ar gyflogi staff am y tro cyntaf ar gael yn [www.gov.uk/employing-staff](http://www.gov.uk/employing-staff)

## Eitemau eraill o ddiddordeb

### Ffioedd

Dylech gadw cofnod o unrhyw ffioedd achlysurol ar gyfer erthyglau papur newydd, cyfweiliadau teledu neu radio ac ymrwymadau siarad sydd yn gysylltiedig â'ch dyletswyddau fel Aelod Seneddol i'w cynnwys ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

### TAW

Bydd unrhyw incwm sydd heb ei gael oddi wrth IPSA, neu o gyflogaeth neu swydd arall, yn ffurfio rhan o'ch 'gyflenwadau trethadwy' at ddibenion TAW.

Mae angen i chi gofrestru ar gyfer TAW os yw'r canlynol yn berthnasol:

- aeth eich trosiant ar gyfer y 12 mis blaenorol dros y trothwy TAW, sef £85,000 ar hyn o bryd (ar gyfer 2017-18)
- rydych o'r farn y bydd y eich trosiant yn mynd dros y trothwy'n fuan.

Gallwch ddewis cofrestru hyd yn oed os nad oes yn rhaid i chi. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [www.gov.uk/vat-registration](http://www.gov.uk/vat-registration)

### Ffioedd a gyfrannwyd at elusen

Fe'ch trethir ar unrhyw ffioedd a gewch, hyd yn oed os byddwch yn talu'r swm i elusen, neu os byddwch yn gofyn bod y swm y mae gennych hawl iddo yn cael ei dalu i fan arall. Dylech gynnwys y ffioedd a gafwyd ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

Os ydych yn hepgor eich hawl i ffioedd cyn y maent fod i gael eu talu, yna ni fydd y ffioedd yn drethadwy. Er mwyn i'r trefniant bod yn effeithiol, bydd y corff sy'n talu'r ffioedd yn gallu dewis yr elusen i roi'r ffioedd iddi, neu ddewis peidio â rhoi o gwbl. Nid oes angen i chi nodi'r manylion ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

Fel arall, mae'n bosibl i chi ddewis rhoi swm sy'n gyfatebol i'r ffioedd, trwy Gymorth Rhodd. Yn yr achos hwn bydd yr elusen yn gallu adennill y dreth ar y gyfradd sylfaenol ar y rhodd, a gallwch adennill gweddill y rhyddhad treth sy'n ddyledus.

Os ydych am ddefnyddio Rhodd Cymorth, darllenwch

[www.gov.uk/government/publications/charities-detailed-guidance-notes](http://www.gov.uk/government/publications/charities-detailed-guidance-notes)

Gallwch hefyd roi swm sy'n cyfateb i'r ffioedd i elusen drwy gynllun Rhoi drwy'r Gyflogres a chael gostyngiad treth llawn ar y rhodd. Gall IPSA ddarparu manylion am sut i roi i elusen drwy'i gynllun Rhoi drwy'r Gyflogres.

Sylwch, os nad ydych yn hepgor eich hawl i ffioedd, yna dylech gynnwys ffioedd fel incwm ar eich Ffurflen Dreth, hyd yn oed os oes swm cyfatebol yn cael ei roi drwy Rodd Gymorth neu Roi drwy'r Gyflogres.

# Adran 4. Treth Enillion Cyfalaf ar breswylfannau



Pan fo'r eiddo wedi bod yn unig breswylfan neu'n brif breswylfan i chi am ran o'r cyfnod o berchnogaeth, rhannir unrhyw ennill ar sail amser, yn dibynnu ar ba mor hir yr ydych wedi byw yn yr eiddo hwnnw.

Mae unrhyw ennill sy'n dod o waredu'ch unig breswylfan neu'ch prif breswylfan fel arfer wedi'u heithrio rhag Treth Enillion Cyfalaf os yw'r eiddo wedi bod yn unig breswylfan neu'n brif breswylfan i chi drwy gydol eich cyfnod o berchnogaeth. Gelwir yr eithriad hwn yn Rhyddhad Preswylfan Preifat.

Yr eithriadau nodedig yw pan fo maint unrhyw ardd neu dir (gan gynnwys adeiladau) yn fwy na 0.5 hectar, neu pan fo rhan o'r tŷ'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion busnes. Pan fo'r eiddo wedi bod yn unig breswylfan neu'n brif breswylfan i chi am ran o'r cyfnod o berchnogaeth, rhannir unrhyw ennill ar sail amser, yn dibynnu ar ba mor hir yr ydych wedi byw yn yr eiddo hwnnw.

## Eich preswylfan

Os ydych yn byw mewn dau neu fwy o dai, fel eich cartref, gallwch enwebu pa breswylfan sydd i'w drin fel eich prif breswylfan am unrhyw gyfnod.

Mae'ch dewis yn berthnasol ar gyfer Treth Enillion Cyfalaf yn unig. Rhaid i'ch enwebiad gael ei wneud cyn pen dwy flynedd o'r dyddiad pan fo gennych gyfuniad o breswylfeydd. Os oes newid yn eich cyfuniad o breswylfeydd, mae cyfnod newydd o ddwy flynedd yn dechrau. Os nad ydych yn enwebu un o'ch cartrefi fel eich prif breswylfan, caiff y cwestiwn pa un o'r rhain yw'ch prif breswylfan ei benderfynu ar sail y ffeithiau.

## A all mwy nag un preswylfan fod yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Preswylfan Preifat?

Mae dwy set o amgylchiadau lle y gallai hyn ddigwydd.

Yn gyntaf, os ydych wedi defnyddio eiddo fel eich unig preswylfan neu'ch prif breswylfan ar ryw adeg yn ystod eich cyfnod o berchnogaeth, efallai y bydd peth amser cyn i chi werthu'r eiddo hwnnw, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd yn rhaid i chi roi'r gorau i'w ddefnyddio fel eich prif breswylfan (er enghraifft, pan fyddwch yn prynu cartref newydd cyn i'r hen un cael ei werthu). I ddarparu ar y posibilrwydd hwn, caiff y 18 mis olaf o berchnogaeth ei drin bob amser fel pe baech wedi'i feddiannu fel eich unig breswylfan neu'ch prif breswylfan. Mae'n bosibl y bydd Rhyddhad rhag Treth Enillion Cyfalaf wedyn yn ddyledus am y cyfnod gorgyffwrdd ar yr hen eiddo a'r eiddo newydd.

Yn ail, os ydych wedi darparu preswylfan ar gyfer dibynnydd cyn 6 Ebrill 1988, efallai eich bod yn gymwys i gael rhyddhad rhag Treth Enillion Cyfalaf ar yr eiddo hwnnw, yn ogystal â'ch eiddo chi'ch hun.

## Rhyddhad ar gyfer pobl briod neu rywun mewn partneriaeth sifil

Os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil, ac nid ydych wedi'ch gwahanu oddi wrth eich priod neu'ch partner sifil, ac rydych yn berchen ar ddau neu fwy o gartrefi rhyngoch, mae'n rhaid i unrhyw enwebiad gael ei wneud ar y cyd a'i lofnodi gan y ddau ohonoch. Mae gennych hawl i Ryddhad Preswylfan Preifat ar un cartref rhyngoch yn unig.

I gael rhagor o wybodaeth am Dreth Enillion Cyfalaf ar breswylfannau, ewch i [www.gov.uk/government/publications/private-residence-relief-hs283-self-assessment-helpsheet](http://www.gov.uk/government/publications/private-residence-relief-hs283-self-assessment-helpsheet)

